



# Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) Adroddiad Safle Chwarterol ar gyfer Gorsaf Bŵer Wylfa

Adroddiad ar gyfer y cyfnod 1 Hydref – 31 Rhagfyr 2015

## Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn rhan o ymrwymiad yr ONR i sicrhau bod gwybodaeth am weithgareddau arolygu a rheoleiddiol yn ymwneud â'r safle uchod ar gael i'r cyhoedd. Dosbarthir adroddiadau yn chwarterol i aelodau Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa ac maent hefyd ar gael ar wefan yr ONR (<http://www.onr.org.uk/lc/>).

Fel arfer bydd arolygwyr safle o'r ONR yn mynd i gyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa a byddant yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Dylai unrhyw un sydd eisiau ymholi ynglŷn â materion a drafodir yn yr adroddiad hwn gysylltu â'r ONR.

## TABL CYNNWYS

1	ARCHWILIADAU .....	3
2	MATERION ARFEROL.....	3
3	MATERION ANARFEROL.....	4
4	GWEITHGAREDD RHEOLEIDDIO .....	6
5	NEWYDDION GAN YR ONR.....	7
6	CYSYLLTIADAU.....	8

## 1 ARCHWILIADAU

### 1.1 Dyddiadau archwiliadau

Fe gyflawnodd arolygydd safle'r ONR arolygiadau ar y dyddiad canlynol yn ystod y chwarter:

13, 14, 21, 22, 23 Hydref 2015  
16, 23, 24, 25, 26, 27 Tachwedd 2015  
7, 8, 9, 10, 11, 16, 17 Rhagfyr 2015

## 2 MATERION ARFEROL

### 2.1 Archwiliadau

Cynhelir arolygiadau ar y safle fel rhan o'r broses o fonitro cydymffurfiaeth â'r canlynol:

- yr amodau a atodwyd gan yr ONR i'r drwydded safle niwclear a ddyfarnwyd dan y Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965 (NIA65) (fel y'i haddaswyd);
- y Ddeddf Ynni 2013;
- y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HSA74); a
- rheoliadau a wnaed o dan HSA74, er enghraifft y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 (IRR99) a'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99).

Mae'r archwiliad yn golygu monitro gweithredoedd y trwyddedai ar y safle mewn perthynas â digwyddiadau, gweithrediadau, cynnal a chadw, prosiectau, addasiadau, newidiadau i'r achos diogelwch ac unrhyw faterion eraill a all effeithio ar ddiogelwch. Mae'n ofynnol i'r trwyddedai wneud trefniadau digonol a'u rhoi ar waith o dan yr amodau sydd wedi eu hatodi i'r drwydded er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol. Mae arolygiadau yn ceisio rhoi barn ar ddigonolrwydd y trefniadau hyn a'u gweithrediad.

Yn y cyfnod hwn, cwmpasodd arolygiadau rheolaidd safle (safle/goraf) y canlynol:

Rheoli gweithrediadau, gan gynnwys rheoli a goruchwyllo;  
Hyfforddiant, cymwysterau a phrofiad staff;  
Parodrwydd ar gyfer argyfwng;  
Digwyddiadau ar y safle;  
Datgomisiynu;  
Newidiadau sefydliadol;

Yn gyffredinol, barnodd yr ONR bod y trefniadau a wnaed ac a weithredwyd gan y safle mewn ymateb i ofynion diogelwch yn ddigonol yn y meysydd a arolygwyd. Fodd bynnag, lle yr ystyriwyd bod gwelliannau yn angenrheidiol, gwnaeth y trwyddedai ymroddiadau boddhaol i fynd i'r afael â'r materion, a bydd yr arolygydd safle yn monitro cynnydd yn ystod ymweliadau yn y dyfodol. Lle bo angen, bydd yr ONR yn cymryd camau gorfodi rheoliadol ffurfiol i sicrhau y gweithredir mesurau adferol priodol o fewn terfynau amser sy'n rhesymol ymarferol.

#### Archwiliadau System Ddiogelwch

Mae'r ONR yn cynnwys arolygiadau o'r systemau sy'n cyfrannu at ddiogelwch adweithyddion gweithredol yn ychwanegol at archwiliadau cydymffurfio yn seiliedig ar yr amodau sydd ynghlwm wrth y drwydded safle niwclear. Mae'r safle niwclear yn gofyn i'r holl safleoedd trwyddedig gael achos diogelwch parthed unrhyw weithrediadau a allai effeithio ar ddiogelwch. Ar gyfer yr adweithydd Magnox sy'n parhau'n weithredol yng ngorsaf bŵer Wylfa, nodwyd 30 o systemau i fod yn sail i archwilio systemau diogelwch er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r hawliadau a wneir arnynt gan yr achos diogelwch. Y bwriad yw archwilio diogelwch y systemau diogelwch perthnasol a nodir ar y safle yn systematig dros gyfnod o bum mlynedd. Mae'r ONR o'r farn y bydd yr ymagwedd hon yn darparu'r lefel ofynnol o sicrwydd y bodlonir gofynion yr achos diogelwch a bod y safle yn cael ei weithredu'n ddiogel.

Y chwarter hwn, y system ddiogelwch a arolygwyd oedd y Strwythurau Sifil. Ar sail yr arolygiadau, pennwyd bod y systemau yn cael eu gweithredu a chynnal yn unol â gofynion yr achos diogelwch. Ble nodwyd meysydd i'w gwella, addawodd yr orsaf y byddai'n cymryd camau priodol i ddelio â'r rhain. Bydd yr ONR yn monitro cynnydd i gwblhau'r gwaith a gytunwyd.

Gellir dod o hyd i fanylion pellach arolygiadau system yr ONR yng ngorsaf bŵer Wylfa a safleoedd trwyddedig niwclear eraill yn: <http://www.onr.org.uk/intervention-records/index.htm>

## 2.2 Gwaith arall

Cynhaliodd arolygydd y safle gyfarfod cyfnodol gyda chynrychiolwyr diogelwch, i gefnogi ei swyddogaeth o gynrychioli cyflogaion a derbyn gwybodaeth ar faterion yn effeithio ar eu hiechyd, diogelwch a lles yn y gwaith.

## 3 MATERION ANARFEROL

Mae'n ofynnol i drwyddedai sefydlu trefniadau i ymateb i faterion a digwyddiadau anghyffredin. Mae arolygwyr yr ONR yn barnu digonolrwydd ymateb y trwyddedai, yn cynnwys sut y gweithredwyd i gyflawni unrhyw welliannau angenrheidiol.

Materion penodol i'w nodi yn ystod y cyfnod oedd:

### Gwyntyll cyflenwi awyru yn rhedeg o chwith

Canfuwyd bod modur gwyntyll cyflenwi oedd yn cyflenwi aer i nifer o ardaloedd yn Adeilad Offer yr Adweithydd (REB) wedi bod yn rhedeg i'r cyfeiriad croes. Awgryma ymchwiliadau cychwynnol y bu hyn yn wir am gyfnod estynedig o amser. Canlyniad y ffurfweddiad gwaith hwn yw bod aer wedi bod yn cael ei echdynnu o ardaloedd rheoli llygredd a'i ryddhau trwy lwybr na awdurdodwyd. Cyflawnwyd arolwg cychwynnol o'r system. Ni ddatgelodd hyn lygredd arwyddocaol, er bod swm hybrin o Cobalt-60 wedi ei ganfod gan fonitro y siambr a sbectrometreg gama wedi dadansoddiad pellach. Mae Magnox Ltd yn cynnal ymchwiliad i achos craidd y digwyddiad hwn. Cynhaliwyd ymchwiliad dilynol ar y cyd i'r digwyddiad hwn rhwng yr ONR a Chyfoeth Naturiol Cymru (NRW) ym mis Rhagfyr. Ni chynigir unrhyw gamau pellach gan yr ONR ar wahân i fonitro cwblhau'r camau yn deillio o adroddiad ymchwiliad terfynol Magnox Ltd. Ar hyn o bryd mae Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW) yn ystyried ei ymateb i'r digwyddiad, parthed cydymffurfiad gyda'r drwydded amgylcheddol sylweddau ymbelydrol, ac mae wedi cadarnhau bod effaith amgylcheddol y digwyddiad yn fach iawn.

### Amhariad ar y Cynllun Tripio Dethol

Ar 22 Hydref 2015, cyflawnodd Arolygydd Safle'r ONR (Diogelwch Niwclear) ymchwiliad rhagarweiniol i'r digwyddiadau yn gysylltiedig gyda dileu'r Releiau Cynllun Tripio Dethol wrth gyflawni'r gwiriad swyddogaethol a chynnal a chadw cylched rheoli adran bws y bwrdd gwasanaethau allweddol 415V ar 20 Hydref 2015. Ar 21 Hydref, adroddodd Magnox Ltd ar y digwyddiad hwn i'r ONR a chadarnhau bod gan dynnu'r releiau Tripio Dethol y potensial i leihau amddiffyniad ar ddyfnder os ceir gwall colli'r grid. Heb y releiau, byddai yna berygl o beidio gallu dechrau'r Tyrbin Nwy sy'n darparu cyflenwad trydanol allweddol ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â diogelwch. Fodd bynnag, ni ystyrir y byddai hyn yn effeithio ar y generaduron disel ac felly roedd rhywfaint o amddiffyniad o hyd.

Wedi ystyried y casgliadau o ymchwiliad cychwynnol yr ONR ac yn dilyn gweithrediad Model Rheoli Gorfodaeth yr ONR, casglwyd fod cydymffurfiad gydag Amod Trwydded (LC) 28 yn Wylfa yn sylweddol is na'r safon yn yr achos hwn o gymharu â'r Canllaw Archwilio Technegol ONR perthnasol, yn ogystal â threfniadau Magnox Ltd ei hun ar gyfer cydymffurfiad gydag LC28. Arweiniodd y methiant i weithredu trefniadau digonol wrth gyflawni'r gweithgaredd cynnal a chadw hwn yn arwain at beryglu diogelwch.

Mewn ymateb i lythyr gorfodi, a gyhoeddwyd gan yr ONR, mae Magnox Ltd wedi darparu'r ONR â Rhaglen Wella ar gyfer cyflawni cynnal a chadw yn Wylfa gyda ffocws penodol ar gam wedi cynhyrchu gweithrediadau. Disgwylir i'r rhaglen hon ddelio gydag ansawdd gweithdrefnol yn ogystal â defnydd ac ymlyniad i'r rhain sy'n cynnwys (ond nid o reidwydd yn gyfyngedig i) y canlynol:

- Addasrwydd i'r diben; cywirdeb technegol; rheoli ac adolygu dogfennau; addasrwydd gwiriadau
- Briffio cyn gwaith a theithiau tywys tasg
- Goruchwyliaeth
- Safonau ymddygiad – yn cynnwys defnyddi hunan wirio

Mae'r rhaglen a gyflwynwyd yn glir, wedi ei blaenoriaethu a'i darparu ag adnoddau fel bod trefniadau ar waith ar gyfer adolygu unrhyw gyfarwyddiadau cynnal a chadw arwyddocaol yn ymwneud â diogelwch sydd i ddod yn ystod 3 mis cyntaf gwagio tanwydd (Ebrill, Mai, Mehefin) yn drylwyr cyn symud i wagio tanwydd, a bydd y gweddill yn cael eu hadolygu cyn diwedd Mehefin. Bydd yr ONR yn cyflawni archwiliadau parodrwydd wedi eu targedu at yr agwedd hon i sicrhau y gweithredir y gwelliannau gofynnol yn ddigonol i ddarparu caniatâd ar gyfer yr addasiad i'r Rheolau Gweithredu sy'n galluogi gweithrediad yr Achos Diogelwch Gwagio Tanwydd yn Dilyn Cynhyrchu.

#### Peiriant Trosglwyddo Tynnu Tanwydd/Dyfais Atal Cell Storfa Sych Eilaidd

Adroddodd Magnox Ltd am ddiwyddiad yn ymwneud â thynnu dyfais atal o bont fynediad Cell Storfa Sych (DSC) 4 a 5, i'r ONR ar 28 Medi 2015. Canfuwyd y ddyfais atal sy'n atal gweithrediad y Peiriant Trosglwyddo Tanwydd (FTM) trwy ynysu'r cyflenwad trydanol, tra bydd y bont fynediad wedi ei thynnu i fwrdd, yn rhydd o draws codi'r bont fynediad ar 23 Medi 2015. Gallai hyn ganiatáu i'r FTM gael ei yrru dros y bwlc agored unwaith bydd y bont wedi ei thynnu. Mae sefydlu ffeithiau Magnox Ltd i gefnogi ei ymchwiliad wedi sefydlu bod y ddyfais atal wedi ei thynnu gan rigwyr a gyflogwyd gan Doosan Babcock Ltd wrth ailosod y bont fynediad ar 13 Awst 2015. Yn ystod cyfnod ei dynnu a darganfod roedd yr FTM wedi bod mewn defnydd (sylwer: pont fynedfa yn ei lle felly dim risg o'r peiriant trosglwyddo yn mynd i ofod y gwagle).

Cadarnhaodd cyfweiliadau a gyflawnwyd gan yr ONR gyda rigwyr Doosan Babcock Ltd a'u rheolwr safle na ddarparwyd cyfarwyddiadau ysgrifenedig, briffiau cyn gwaith, cardiau trefn gwaith, asesiadau risg na chynlluniau codi i gefnogi'r dasg hon. Mae hefyd yn amlwg, o gyfweiliad gyda gweithredwr craen Magnox Ltd, nad oedd ganddo unrhyw wybodaeth ychwaith. Roedd aelodau'r deiliaid dyletswyddau unigolyn yn ystyried y llall i fod yn gyfrifol am reoli a goruchwyllo. Cadarnhaodd y rigwyr eu bod wedi tynnu'r ddyfais atal o'r bont gan eu bod yn ystyried ei bod yn angenrheidiol i wahanu'r trawst codi o'r bont. Nid oeddynt yn ymwybodol o swyddogaeth y ddyfais atal a'i ddiben. Cadarnhaodd gweithredwr y craen hefyd nad oedd yn ymwybodol fod dyfais atal yn bresennol. Cadarnhaodd y rigwyr nad oeddynt wedi cyflawni'r dasg hon o'r blaen ac mai dyma'r ail waith yn unig pan oedd gweithredwr y craen wedi cyflawni'r dasg hon.

Wedi ystyried y casgliadau o'm hymchwiliad ac yn dilyn gweithrediad Model Rheoli Gorfodaeth yr ONR, rwyf wedi casglu fod cydymffurfiad gydag Amod Trwydded 26 yn Wylfa yn annerbyniol yn yr achos hwn o gymharu â'r Canllaw Archwilio Technegol ONR perthnasol, yn ogystal â threfniadau Magnox Ltd ei hun ar gyfer cydymffurfiad gydag LC26. Golygai'r diffyg rheolaeth a goruchwyliaeth yn ystod cyfnewid y bont fynediad ar 13 Awst 2015 bod diogelwch wedi ei beryglu.

Mewn ymateb i lythyr gorfodi a gyhoeddwyd gan yr ONR, mae Magnox Ltd wedi cyflwyno'r cynigion i'r ONR a fydd yn delio ag achosion gwraidd y digwyddiad hwn a arweiniodd at dynnu'r ddyfais atal hon o bont fynediad DSC 4 a 5 a gweithrediad dilynol y peiriant trosglwyddo tanwydd o'r dyddiad hwnnw tan ddiwedd Medi pan nodwyd bod y ddyfais atal

wedi ei thynnu. Bydd ONR yn monitro cyflawniad Magnox Ltd o welliannau arfaethedig yn ystod y chwarter nesaf.

#### 4 GWEITHGAREDD RHEOLEIDDIO

Gall yr ONR gyhoeddi dogfennau ffurfiol i sicrhau y cydymffurfir â gofynion rheoliadol. O dan amodau trwyddedu safleoedd niwclear, mae'r ONR yn cyhoeddi dogfennau rheoliadol, sydd naill ai'n caniatáu gweithgaredd neu'n mynnu bod camau penodol yn cael eu cymryd; gelwir y rhain gyda'i gilydd yn 'Offerynnau Trwydded' (LIs), ond gallant fod ar ffurf arall. Yn ogystal, gall arolygwyr gyhoeddi Hysbysiadau Gorfodi i sicrhau gwelliannau i ddiogelwch.

- Cyhoeddwyd yr LIs canlynol yn ystod y cyfnod:

**Tabl 1**  
**Offerynnau Trwyddedu a Hysbysiadau Gorfodi a Gyhoeddwyd gan yr ONR yn ystod y cyfnod hwn**

Dyddiad	Math	Cyf	Disgrifiad
04/12/15	Cymeradwyaeth	Offeryn Trwydded 565	<p>Cafodd Cell Storio Sych 4 (DSC4) ei chynllunio ar gyfer storio crynswth bron i 29000 o elfennau tanwydd arbelydredig mewn amgylchedd aer wedi ei reoli'n weithredol. Darperir y gofynion gweithredol ar gyfer cynnal yr amgylchedd mewn Rheol Weithredu Gymeradwy a Chyfarwyddiadau Gweithredu Gorsaf cyfeirnod cysylltiedig. Mae Magnox Ltd wedi datgan fod DSC4 yn rhydd o danwydd, ac mae nawr yn cynnwys stocestr fechan o ILW yn unig. Mae Magnox Ltd yn ystyried nad yw'r amodau a chyfyngiadau cael a bennwyd bellach yn ofynnol yn y cyflwr hwn i gynnal diogelwch niwclear ac y gellir eu diddymu, a'i cyfnewid gyda threfniadau amgen priodol yn seiliedig ar gyfarwyddiadau gweithredu gorsaf arferol.</p> <p>Mae'r ONR yn hapus gyda'r hawliadau, dadleuon a thystiolaeth a gyflwynwyd ym mhapur y Pwyllgor Diogelwch Niwclear (NSC) "Cynigion i ddileu rheoli weithredu 4.5, cyfarwyddiadau gweithredu gorsaf cyfeirnod cysylltiedig (RSOs) a gweithgareddau atodlen cynnal a chadw (MS) ar gyfer y gell storfa sych eilaidd (SDSC) 4" a thystiolaeth arall a ddarparwyd trwy ymgysylltu gyda'r Trwyddedai.</p> <p>O ganlyniad, mae'r ONR wedi caniatáu'r Gymeradwyaeth i addasu Rheolau Gweithredu Gorsaf Wylfa trwy addasu Rheol Weithredu 4.5 ac adolygu dogfennaeth gysylltiedig fel y dynodwyd yng nghyflwyniad diogelwch Magnox Ltd.</p>
17/12/15	Dim Gwrthwynebiad	Llythyr WYF71022N	<p>Yn ystod Gorffennaf a Hydref 2015, ceisiodd Magnox Ltd gytundeb gan yr ONR i lwytho tanwydd arbelydredig i'r Gell Storfa Sych 5 eilaidd wedi ei hailwampio yng ngorsaf bŵer Wylfa.</p> <p>Canfu asesiadau'r ONR o'r cynnig llwybr tanwydd eilaidd wedi ei addasu a'i gyfyngu ei fod yn dderbyniol; mae cyfyngiadau wedi eu gweithredu trwy addasiadau dylunio, cyfarwyddiadau gweithredu a hyfforddiant staff. Mae yna achos ALARP dros ddefnyddio Cell Storfa Sych 5 a'r cyfleuster trin fflasgiau sydd nawr yn llunio'r llwybr eilaidd.</p>

			Ar wahân i Gell Storfa Sych 4, mae'r ONR yn cefnogi defnyddio llwybr gwagio eilaidd Wylfa. Felly, rhoddwyd cytundeb i lwytho tanwydd arbelydredig i Gell Storfa Sych 5 yn unol â chais Magnox Ltd, ar yr amod y gweithredir y terfynau ac amodau a ddynodwyd yn yr achos diogelwch perthnasol.
--	--	--	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Gellir dod o hyd i adroddiadau gyda manylion y penderfyniadau rheoleiddio uchod ar wefan yr ONR yn <http://www.onr.org.uk/pars/>.

## 5 NEWYDDION GAN YR ONR

### Prif Weithredwr

Penodwyd Adrienne Kelbie yn Brif Weithredwr yr ONR a bydd yn dechrau yn y swydd ar 18 Ionawr 2016. Ar hyn o bryd mae Adrienne yn Brif Weithredwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a chyn hynny mae wedi dilyn gyrfu amrywiol, gan gynnwys cyfnodau fel Dirprwy Brif Weithredwr mewn awdurdod lleol a Chyfarwyddwr Gweithrediadau ar gyfer cyllid cenedlaethol a rhyngwladol yn y Gronfa Loteri Fawr.

### Prif Arolygydd Niwclear

Ar hyn o bryd mae'r ONR yn recriwtio ar gyfer ei Brif Arolygydd Niwclear. Mae gan y Prif Arolygydd Niwclear rôl allweddol wrth ddarparu sicrwydd ar effeithiolrwydd system reoleiddio niwclear y Deyrnas Unedig i Fwrdd yr ONR, gweinidogion, trwyddedigion a'r cyhoedd ym Mhrydain a bydd yn cynrychioli'r ONR yn genedlaethol a rhyngwladol. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd dydd Sul 17 Ionawr 2016, ac mae'r ymgyrch recriwtio nawr wedi symud i'r cam nesaf. Cyhoeddir diweddariadau pellach ar yr ymgyrch recriwtio ar ein gwefan [www.onr.org.uk](http://www.onr.org.uk).

### Cylchgrawn Regulation Matters

Gellir cael cipolwg ar waith yr ONR fel rheolydd annibynnol i'r diwydiant niwclear yn Regulation Matters yr ONR. Mae'r cyhoeddiad ar-lein (<http://www.onr.org.uk/regulation-matters.htm>) yn adrodd ar themâu a datblygiadau allweddol ym mhob un o raglenni rheoleiddio'r ONR ac yn darparu diweddariad ynglŷn â'r newidiadau i ddod yn ONR. <http://www.onr.org.uk/index.htm>. I gael y newyddion a diweddariadau diweddaraf gan ONR, ewch i'r wefan a chofrestrwch ar gyfer eich e-fwletin (<http://www.onr.org.uk/ebulletin/index.htm>).

## 6 CYSYLLTIADAU

Y Swyddfa dros Reoli Niwclear  
Redgrave Court  
Merton Road  
Bootle  
Glannau Mersi  
L20 7HS

gwefan: [www.onr.org.uk](http://www.onr.org.uk)

e-bost: [ONREnquiries@onr.gsi.gov.uk](mailto:ONREnquiries@onr.gsi.gov.uk)

Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR). Am ragor o wybodaeth am ONR, neu i roi adroddiad am anghysondebau neu wallau yn y cyhoeddiad hwn, ewch i <http://www.onr.org.uk/feedback.htm>.

© Y Swyddfa dros Reoli Niwclear, 2016

Os ydych yn dymuno aildddefnyddio'r wybodaeth hon, ewch [www.onr.org.uk/copyright.htm](http://www.onr.org.uk/copyright.htm) am fanylion.

Cyhoeddwyd 01/16

*Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, y copi electronig ar wefan yr ONR yw'r fersiwn fwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae ei gopïo neu ei argraffu yn gwneud y ddogfen hon yn un na ellir ei rheoli.*